# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

**<u>Aelodau sy'n Bresennol:</u>** **<u>Dydd Mercher, 23 Rhagfyr 2020</u>**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, S.E.Freeguard, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, S.K.Hunt, J.Hurley, C.J.Jones, D.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.Paddison, S.M.Penry, M.Protheroe, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, P.D.Richards, D.Whitelock, C.Williams, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Curran, A.Evans, C.Furlow-Harris, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, N.Pearce a/ac M.Shaw |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Present |

---

1. **<u>CYHOEDDIADAU'R MAER</u>**

Gyda thristwch mawr, cyhoeddodd y Maer fod tad yng nghyfraith y Cynghorydd Peter Richards wedi marw. Fel arwydd o barch cynhaliodd y Cyngor funud o ddistawrwydd.

2. **<u>MATERION GWEINYDDOL AR GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2020-21</u>**

Ystyriodd y cyngor y gwahanol faterion gweinyddol fel y'u nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:**

a) Cadarnhau'r Cynghorydd Scott Jones yn Faer ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2020/21 yn unol ag Adran 23(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.

b) Cadarnhau'r Cynghorydd John Warman yn Ddirprwy Faer ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 20/21 yn unol ag Adran 24(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.

c) Ethol y Cynghorydd R G Jones yn Arweinydd y Cyngor ac ethol y Cynghorydd E V Latham yn Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2020/21 yn unol â Rhan 4, Adran 1(1.1) o'r Cyfansoddiad.

d) Bod y Trefniadau Gweithredol ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2020/21 h.y. y cyfnod tan y Cyfarfod Blynyddol nesaf, mewn perthynas â maint y Cabinet; penodi Aelodau iddo; penodi Byrddau'r Cabinet; a chlustnodi Portffolios y Cabinet fel y'u cynhwysir yn **Atodiad A** 'r adroddiad a ddosbarthwyd yn cael eu cymeradwyo;

e) Bod dosraniad y seddi ymhlith cyfansoddiad y Grwpiau Gwleidyddol ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2020/21 fel y'i nodir yn **Atodiad B** i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn cael ei gadarnhau (ond PENDERFYNIR yn unfrydol, yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, na ddylai gofynion cydbwysedd gwleidyddol Adrannau 15 ac 16 fod yn berthnasol i'r Panel Apeliadau, y Pwyllgor Safonau a'r Is-bwyllgor Deddfau Trwyddedu a Hapchwarae);

f) Bod strwythur arfaethedig y pum Pwyllgor Craffu a'u swyddogaethau a dosraniad cadeiryddion pwyllgorau craffu ymhlith y Grwpiau Gwleidyddol a gyfansoddwyd a phenodiadau'r aelodau i bob Pwyllgor Craffu yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol ynghyd ag ail-benodi'r aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor Craffu Sgiliau a Diwylliant Addysg fel y'u nodir yn **Atodiad C** yn cael eu cadarnhau ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2020/21

g) Bod y cynigion mewn perthynas â threfniadau eraill y Pwyllgor ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2020/21 yn cael eu cymeradwyo, ynghyd â phenodi Aelodau iddo, fel y'i nodir yn **Atodiad D** i'r adroddiad a ddosbarthwyd. Cymeradwyo bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn dod o blith aelodau'r gwrthbleidiau yn y pwyllgor ac y bydd y Pwyllgor Archwilio'n penderfynu ar hyn, ac mai'r Is-bwyllgor Trwyddedu fydd yn penderfynu ar Gadeirydd ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu.

h) Nodi'r bwriad i benodi (unwaith ei fod wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet) penodiadau Aelodau/Swyddogion i Gydbwyllgorau, Cyrff Allanol a Chyrff Cyhoeddus Eraill ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2020/21 a nodir yn **Atodiad E,** gyda'r Cynghorydd A Wingrave i gymryd lle'r Cynghorydd C Clement Williams ar aelodaeth 'Adfywio CNPT'.

i) Cymeradwyo Cylch ac Amserlen y Pwyllgor ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2020/21 (gan gynnwys Seminarau Aelodau) a nodir yn **Atodiad F**.

j) Cymeradwyo dosbarthiad y Cyflogau Uwch sydd ar gael fel y'u cynhwysir yn **Atodiad G.**

k) Cymeradwyo cylch gorchwyl ac aelodaeth y Panel Aelodau - Coronafeirws a nodir yn **Atodiad H**.

l) Cymeradwyo'r strwythur ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd a nodir yn **Atodiad I.**

3. **DYNODI PENNAETH GWASANAETH Â THÂL**

PENDERFYNWYD:

a) Cymeradwyo penodiad Mrs Karen Jones yn Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, o 1 Ionawr 2021, yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

b) Cymeradwyo penodiad Mrs Karen Jones, yn Swyddog Canlyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot {13}o Ionawr 2021, {12} yn unol ag Adran 35 (1A) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

c) Cymeradwyo penodiad Mrs Karen Jones, o yn Swyddog Cofrestru Etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, o 1 Ionawr 2021, yn unol ag Adran 8 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

**CHAIRPERSON**